OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

## YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

## ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1 o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Maent hefyd wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau yn adrannau 132 a 135 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gydnabod cymwysterau athrawon yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd unrhyw effaith, neu unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni* | ***** |
| *Gwnaed* | ***** |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | ***** |
| *Yn dod i rym* | ***** |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 132(1) a (2) a 135 o Ddeddf Addysg 2002([1]), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor y Gweithlu Addysg fel sy'n ofynnol gan adran 132(4) o'r Ddeddf honno, a thrwy arfer y pwerau ym mharagraff 1 o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (sy'n ymwneud â gweithdrefn briodol y Cynulliad ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

(1) 2002 p. 32. Gweler adran 212(1) am ystyr "regulations". Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## RHAN 1

### Cyflwyniad

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol (Cofrestru Athrawon Dros Dro o Wladwriaethau Ewropeaidd Perthnasol) (Cymru a Lloegr) 2009(**1**) wedi eu dirymu.

## RHAN 2

### Diwygio is-ddeddfwriaeth

**Diwygio Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, yn lle’r diffiniad o “Rheoliadau 2005”, rhodder—

> “ystyr “Rheoliadau 2015” (“*the 2015 Regulations*”) yw Rheoliadau’r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015(**3**)”.

(3) Yn rheoliad 3(1)(d), yn lle “Rheoliadau 2005”, rhodder “Rheoliadau 2015”.

---

(**1**) O.S. 2009/3200, dirymwyd y Rheoliadau hyn o ran Lloegr gan O.S. 2012/1153.

(**2**) O.S. 2005/1227 (Cy. 85), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2011/1769 (Cy. 196).

(**3**) O.S. 2015/2059, a ddiwygiwyd gan adran 211 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) ac Atodlen 19 iddi, O.S. 2016/696, 2016/1094, 2016/1030, O.S. 2018/838.

**Diwygio Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 4 o Atodlen 2, rhodder—

"**4.**—(1) Personau sydd â'r hawlogaeth, mewn perthynas â phroffesiwn athro neu athrawes ysgol, i ymarfer yn unol â Rheoliadau 2007 neu Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd 2015, gan gynnwys yn unol ag—

(a) penderfyniad a wneir neu hawl a gronnir o dan Reoliadau 2007 neu Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd 2015 cyn y diwrnod ymadael yn unol â pharagraff 40 o Atodlen 1 i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018;

(b) penderfyniad neu ddyfarniad a wneir o dan Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd 2015 yn unol â pharagraff 44 o Atodlen 1 i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018; neu

(c) penderfyniad neu ddyfarniad a wneir o dan Reoliadau 2007 yn unol â pharagraff 48 o Atodlen 1 i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007(**2**);

ystyr "Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd 2015" ("*the 2015 European Union Regulations*") yw Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015(**3**)."

---

(**1**) O.S. 2012/724 (Cy. 96), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2015/484 (Cy. 41).

(**2**) O.S. 2007/2871, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2015/2059.

(**3**) O.S. 2015/2059, a ddiwygiwyd gan adran 211 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) ac Atodlen 19 iddi, O.S. 2016/696, 2016/1094, 2016/1030, O.S. 2018/838.

(3) Ar ôl paragraff 4 o Atodlen 2, mewnosoder—

> "**4A.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3), personau nas crybwyllir yn unrhyw baragraff arall o'r Atodlen hon ac sy'n meddu ar gymwysterau neu hyfforddiant proffesiynol ffurfiol sy'n caniatáu iddynt gael mynediad i broffesiwn athro neu athrawes ysgol, neu ddilyn y proffesiwn hwnnw, mewn ysgol a gyllidir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan y llywodraeth yn y wladwriaeth y dyfarnwyd y cymhwyster ynddi neu yr ymgymerwyd â'r hyfforddiant ynddi.
>
> (2) Nid yw'r cymwysterau neu'r hyfforddiant proffesiynol a grybwyllir yn is-baragraff (1), ym marn Gweinidogion Cymru, yn sylweddol wahanol i'r cymwysterau neu'r hyfforddiant proffesiynol penodol sy'n ofynnol i gael mynediad i broffesiwn athro neu athrawes ysgol yng Nghymru neu i ddilyn y proffesiwn hwnnw.
>
> (3) Nid yw personau yn destun unrhyw benderfyniad gan gorff, neu achosion gerbron corff sy'n cyfyngu neu a all gyfyngu ar allu person i addysgu mewn unrhyw wladwriaeth neu sydd wedi eu gwahardd fel arall rhag cael mynediad i broffesiwn athro neu athrawes ysgol neu rhag dilyn y proffesiwn hwnnw."

**Diwygio Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(1), yn lle "bodloni un neu fwy o'r amodau", rhodder "bodloni'r amod a ganlyn".

(3) Yn rheoliad 7(2), hepgorer "cyntaf".

(4) Mae rheoliad 7(3) wedi ei ddirymu.

**Diwygio Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015**

**5.**—(1) Mae Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) O.S. 2015/140 (Cy. 8).

(2) Yn erthygl 2—

(a) hepgorer y diffiniad o “y Gyfarwyddeb”;

(b) yn lle’r diffiniad o “y Rheoliadau”, rhodder—

“ystyr “y Rheoliadau” (“*the Regulations*”) yw Rheoliadau’r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015(**2**)”;”.

(3) Yn erthygl 3(1) hepgorer “at ddiben y Gyfarwyddeb”.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 8 o Atodlen 2, rhodder—

“**8.** Person sy’n athro neu athrawes gymwysedig a ddaeth yn gymwysedig felly yn rhinwedd rheoliad 5 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol a chan baragraff 4 neu 4A o Atodlen 2 iddynt.”

*Enw*

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

(**1**) O.S. 2015/194 (Cy. 9).

(**2**) O.S. 2015/2059, a ddiwygiwyd gan adran 211 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) ac Atodlen 19 iddi, O.S. 2016/696, 2016/1094, 2016/1030, O.S. 2018/838.

(**3**) O.S. 2015/484 (Cy. 41).